# MYSTERIOUS AFAN CUDD

# PLANT YN NGHYMRU'R OESOEDD CANOL

Ydych chi erioed wedi dychmygu sut fywyd oedd ar blentyn yn nyddiau Owain Glyndŵr?

Mewn rhai ffyrdd byddai wedi bod yn wahanol iawn – dim cyfrifiaduron, dim ffonau symudol, dim rhyngrwyd, dim trydan, dim ond golau cannwyll a golau'r tân, dim dŵr twym o'r tap, dim ceir neu drenau neu awyrennau....

A neb yn eu harddegau, oherwydd erbyn ichi gyrraedd 12 mlwydd oed roedech eisoes yn oedolyn ac yn barod ar gyfer byd gwaith.

Ond byddai rhai pethau yr un fath. Roedd plant yn chwarae gemau tebyg – chwarae cuddio, bachu, hopsgots, bob math o gemau pêl – ac yn canu'r un rhigymau. Roedden nhw'n mwynhau'r awyr agored a'r dathliadau arbennig – y Nadolig, Calan Mai, Canol Haf, yr ŵyl dân yn yr Hydref – roedd coelcerthi'n cael eu tanio yn gynnar ym mis Tachwedd ymhell cyn geni Guto Ffowc.

Un peth y byddech bron yn sicr o weld ei eisiau byddai mynd i'r ysgol. Roedd ysgolion yn bodoli, ond roedd rhain gan fwyaf ar gyfer y rhai a oedd yn bwriadu ymuno â'r Eglwys a bod yn fynachod, yn leianod neu offeiriaid, a bod angen iddynt allu darllen y Beibl. Yn lle mynd i'r ysgol, byddech chi'n dechrau dysgu'r sgiliau roedd eu hangen arnoch chi fel oedolyn yn gynnar iawn yn eich bywyd.



Manylyn o Gemau'r plant gan Pieter Bruegel yr Hynaf, 1560
Mae'r llun gwreiddiol yn y *Kunthistorichesmuseum*, Fiena, Awstria
Pieter Brueghel the Elder, Public domain, via Wikimedia Commons

Roedd bechgyn a oedd yn feibion teulu bonedd yn cael eu hanfon i ffwrdd i fyw, efallai gyda ffrind neu berthynas, ac yno byddent yn dysgu sut i fod yn filwr, sut mae trin arfau a marchogaeth, ond hefyd i ymddwyn yn gwrtais yng nghwmni eraill. Roedd dysgu darllen ac ysgrifennu'n llai pwysig – roedd llyfrau'n brin iawn beth bynnag, oherwydd bod rhaid eu hysgrifennu â llaw, ac roeddent yn ddrud iawn.

O ran y merched, byddan nhw'n cael eu hyfforddi gan eu mamau, neu efallai gan lywiadures, ac yn dysgu sut i drefnu'r aelwyd. Nid fyddai disgwyl iddynt wneud y gwaith coginio neu lanhau, ond rhaid eu bod yn deall sut oedd gwneud y pethau hynny. Hefyd byddai rhaid iddynt ddysgu nyddu a brodio a sut mae edrych ar ôl ymwelwyr.

Os roeddech yn fachgen ac yn byw mewn tref, a bod eich teulu'n medru fforddio talu ffi, yna mae'n debygol y byddech yn mynd yn brentis masnach. Roedd hyn yn golygu bod rhaid i chi wasanaethu eich meistr, a oedd efallai'n fasnachwr neu grefftwr, am hyd at saith mlynedd wrth ichi ddysgu am ei grefft neu alwedigaeth. Byddai eich meistr yn eich bwydo a'ch dilledu tra roeddech yn gweithio iddo, a gweld eich bod yn ymddwyn yn dda – roedd prentisiaid yn enwog am greu drygioni.

Byddai'n rhaid i'r merched ddysgu edrych ar ôl y cartref, er efallai y byddai disgwyl iddynt wneud mwy o'r gwaith bob dydd o lanhau a choginio nag y disgwylir gan ferched y bonheddwyr. Ond, os oedd eich teulu'n dlawd, yna fe fyddech yn gweithio fel morwyn, yn gwneud y gwaith mwyaf garw.



Babi wedi'i rwymynu, a phlentyn bach mewn cerddwr
Histoire d'ancienne jusqu' à César, Bodleian Douce 353
https://digital.bodleian.ox.ac.uk/objects/e16412ca-c8be-461a-86ac-de59c6464fe6/surfaces/36b1a45e-7eac-41aa-ae1a-2fb6813ae46e/

Ac os roeddech yn blentyn i ffermwr byddai rhaid ichi gymryd rhan yng ngwaith y fferm cyn gynted ag y byddech yn ddigon hen i wneud hynny. Byddai plant ifanc iawn yn cael y gwaith o ddychryn y brain o'r caeau rhag i'r adar fwyta'r cnydau, neu gasglu cerrig o'r caeau yn ystod y gaeaf fel na fyddant yn difrodi swch yr aradr wrth i'r ffermwr aredig adeg y gwanwyn.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD



Miniatur ar gyfer y cofnod aetas "oedran" yng ngwyddionadur *Omne Bonum* (Llundain, 14eg ganrif, BL Royal MS 6 E vii, fol. 67v) yn dangos plant yn chwarae gyda theganau a dal glöynod byw. James le Palmer / artist anhysbys
https://en.wikipedia.org/wiki/Omne_Bonum#/media/File:Omne_Bonum_Royal6Evii67v_Etas.jpg

Roedd y merched yn helpu gyda gwaith yr aelwyd ac yn gwarchod y plant ifancach, ond roeddent hefyd yn edrych ar ôl anifeiliad sâl neu'r rhai a oedd wedi'u hanafu, a'r ieir yn y buarth, gan gasglu'r wyau. Os nad oedd eich teulu'n byw ar fferm yna mae'n bosibl y byddech, cyn gynted ag eich bod yn ddigon hen i wneud, yn cael eich anfon i ffwrdd i weithio fel gwas fferm neu forwyn.

Roedd y bywyd yn galed i bawb, p'un ai roeddech yn byw mewn castell neu fwthyn – ond roedd 'na wyliau hefyd, a diwrnodau ffair, pan y byddai cerddoriaeth a dawnsio, ac adrodd storïau. Byddwch yn dod o hyd i rai o'r storïau hynny ar y wefan. A, tra fyddwch yn gwrando arnynt, ceisiwch ddychmygu eich bod yn eistedd o gwmpas llwyth o dân ar noson oer yn y gaeaf yng nghrombil eich teulu, yn union fel y byddai plant Owain Glyndŵr wedi gwneud yr holl flynyddoedd yn ôl.

Testun wedi'I haddasu o'r gwefannau ac erthyglau canlynol:
Children in Wales in the Middle Ages: Sally Roberts Jones
https://www.owain-glyndwr.wales/fate_of_owain_glyndwr.html
https://stores.renstore.com/history-and-biography/childrens-lives-in-the-middle-ages-and-the-renaissance

Hefyd, gweler: 'Medieval Children' by Nicholas Orme Yale University Press 2003